

PECYN CEFNOGI DEFNYDDWYR Y SAFONAU MASNACH



**SUT I GWYNO AM NWDYDDAU A
GWASANAETHAU ANFODDHAOL**

**CANLLAW SYLFAENOL I DDEFNYDDWYR
GAN GYNNWYS ENGHREIFFTIAU O LYTHYRAU**

Ffôn: 01352 703189 / 08454 040505

<http://www.siryfflint.gov.uk>

PECYN CEFNOGI CYNGOR I DDEFNYDDWYR

MYNEGAI

GWYBOD Y GYFRAITH

1.	Eich Hawliau wrth Brynu Nwyddau	3 - 8
2.	Eich Hawliau wrth Brynu Gwasanaethau a Thermau Annheg	9 -11
3.	Prynu â Chredyd	12 - 14
4.	Gwarantau a Sicrhad	15 - 16
5.	Sut i Gwyno'n Bersonol	17 - 18
6.	Sut i Gwyno'n Ysgrifenedig	19 - 20
7.	Hawliau Canslo a Gwerthu ar Stepen Drws	21 - 24
8.	Gwerthu o Bell/Siopa Gartref	25 - 27
9.	Gwyliau Parod	28 - 30
10.	Defnyddio Arbenigwr	31
11.	Hawliad Bach yn y Llys Sirol	32

LLYTHYRAU

I.	At y Gwerthwr yn Gwrthod Nwyddau Diffygiol	33
II.	Gofyn am Ad-Daliad – Methiant i Gywiro Diffyg	34
III.	Llythyr cyn Gweithredu – Ad-Daliad	35
IV.	At y Gwerthwr yn Gofyn am Drwsiad am Ddim – Nwyddau	36
V.	At y Gwerthwr yn Gofyn am Drwsiad am Ddim - Gwasanaethau	37
VI.	Cynghori am Fwriad i Gael Masnachwr Arall i Gwblhau'r Gwaith	38
VII.	Llythyr Cyn Gweithredu – Costau Adfer	39
VIII.	Cytuno ar Adroddiad Arbenigwr	40
IX.	At y Cwmni Cyllid – Nwyddau Diffygiol	41
X.	Llythyr at y Cwmni Cyllid – Nwyddau Diffygiol a Hurbrynwyd	42
XI.	At y Cwmni Cyllid - Trwsïadau	43
XII.	Tynnu'n ôl o Gytundeb Credyd a Reoleiddir	44
XIII.	Canslo Cytundeb Credyd Canladwy	45
XIV.	Llythyr at y Masnachwr i Ddweud Bod Amser yn Hanfodol	46
XV.	Methiant i Roi Llythyr Hawliau Canslo	47
XVI.	Canslo Contract Arian a Lofnodwyd i Ffwrdd o'r Eiddo Busnes	48

1 : Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau wrth Brynu Nwyddau

Gall gwybod eich hawliau roi hyder i chi a'ch rhoi mewn sefyllfa fargeinio gryfach. Bob tro y prynwch nwyddau newydd neu ail-law o siop, o gatalog neu wrth rywun sy'n rhedeg busnes, rydych yn mynd i gytundeb gyda'r gwerthwr. Mae'r cytundebau gwerthu hyn yn gorfodi rhwymedigaethau ar y prynwr a'r gwerthwr.

Gosodir allan y rhwymedigaethau pwysicaf ar y gwerthwr yn **Neddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd)** gan **Ddeddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau 1994** a **Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002**. Mae'r rhwymedigaethau hyn fel a ganlyn:-


☛ **Y gwerthwr sy'n berchen ar y nwyddau ac mae ganddo hawl i'w gwerthu.** Er enghraifft, os caiff y nwyddau eu dwyn, eiddo'r perchennog gwreiddiol ydynt. Ni fyddant yn dod yn eiddo i chi.

☛ **Mae'r nwyddau o ansawdd boddhaol.** Golyga hyn y dylai'r nwyddau gwrdd â'r safon y byddai unigolyn rhesymol yn ystyried yn safon resymol, gan ystyried unrhyw ddisgrifiad, pris ac amgylchiadau perthnasol eraill a allai gynnwys: -

- Ymddangosiad a gorffeniad
- Rhydd o fân-ddiffygion
- Diogelwch
- Gwydnwch

☛ **Rhaid i'r nwyddau fod yn unol â'u disgrifiad.** Os defnyddir unrhyw ddisgrifiad mewn perthynas â nodweddion y nwyddau boed ar y pecyn, mewn hysbyseb neu ar lafar gan y gwerthwr, rhaid i'r nwyddau gydweddu â'r disgrifiad hwnnw. Er enghraifft, os nodir lliw neu faint eitem ar y pecyn, rhaid i'r nwyddau tu mewn fod y lliw hwnnw neu'r maint hwnnw.

☛ **Rhaid i'r nwyddau fod yn addas ar gyfer eu pwrpas.** Rhaid i'r nwyddau fod yn addas ar gyfer yr holl bwrpasau y cyflenwir nhw fel arfer ac, yn ychwanegol, os prynoch y nwyddau at ddiben penodol ac y rhoddoch wybod i'r gwerthwr, yna rhaid i'r nwyddau fod yn addas i'r pwrpas hwnnw. Er enghraifft, os yw siop yn dweud bod paent penodol yn addas i'w ddefnyddio tu allan, yna dylai fod.



****DYMA'CH HAWLIAU STATUDOL AC NI
ALL UNRHYW UN EU CYMRYD ODDI WRTHYCH****

HAWLIAU'R PRYNWR

Dan y Ddeddf Gwerthu Nwyddau, cewch amser rhesymol i wirio bod y nwyddau'n cydymffurfio â'r gofynion uchod. Mae hwn yn gyfnod byr iawn. Os nad yw'r nwyddau'n cydymffurfio, mae hawl gennych i'w gwrthod a hawlio ad-daliad llawn. Unwaith i'r cyfnod derbyn hwn fynd heibio, mae'n bosibl y gallech hawlio iawndal am unrhyw ddiffygion sy'n ymddangos hyd at gyfnod o chwe blynedd, yn dibynnu ar fath y nwyddau. Bydd iawndal yn cyfateb â chost y trwsiad ac unrhyw golledion eraill sy'n codi'n uniongyrchol o'r diffyg.

Ar gyfer nwyddau a brynwyd ar ôl 31 Mawrth 2003, gallai fod atebion eraill ar eich cyfer dan Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002.

Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002

Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2003 ac maent yn ymwneud â phrynu nwyddau diffygiol a wnaed ar ôl y dyddiad hwn. Dan y rheoliadau, gall defnyddwyr ddewis atebion heblaw am y rhai a ddarperir gan Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd).

☞ Trwsiad neu Nwyddau Newydd

Gall y manwerthwr wrthod y naill neu'r llall os gall ddangos eu bod yn afresymol gostus o'u cymharu ag ateb arall. Os nad yw trwsiad na nwyddau newydd yn bosibl neu os na ellir eu cyflenwi heb anghyfleustra neu oedi sylweddol, gallwch ofyn am y canlynol.

☞ Ad-Daliad Llawn neu Rannol

Bydd hyn yn dibynnu ar yr hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau. Gellid gostwng y pris os ydych wedi cael peth defnydd rhesymol o'r nwyddau.

Profi'r Diffyg

Dan y rheoliadau, lle mae diffyg yn digwydd o fewn chwe mis, gan ddechrau o'r dyddiad y derbynioch y nwyddau a lle gofynnwch am drwsiad neu nwyddau newydd neu, os yw hynny'n methu, ad-daliad llawn neu rannol, nid oes raid i chi brofi bod y diffyg yn bodoli. Rhaid i'r manwerthwr brofi nad oedd y nwyddau'n ddiffygiol mewn achosion dadleuol. Wedi'r chwe mis, bydd raid i chi brofi bod y nwyddau'n

ddiffygiol, er enghraifft, drwy gael adroddiad arbenigwr (gweler 'Defnyddio Arbenigwr').

Nwyddau Ail-Law

Os prynwch nwyddau ail-law gan fanwerthwr, mae'r un rheolau'n gymwys ond cofiwch yr ystyrir oed a chyflwr y nwyddau wrth asesu a yw'r nwyddau o ansawdd boddhaol.

HAWLIAU'R GWERTHWR

Ni fydd gennych unrhyw hawliau yn erbyn y gwerthwr yn yr amgylchiadau canlynol: -

- ☞ Archwilioch yr eitem cyn i chi ei brynu a dylech fod wedi sylwi ar unrhyw ddiffygion;
- ☞ Cawsoch wybod am y diffyg ond bu i chi benderfynu prynu'r nwyddau beth bynnag;
- ☞ Newidiodch eich meddwl, er enghraifft, oherwydd nad oeddent yn ffitio neu oherwydd bod y lliw yn anghywir;
- ☞ Difrodoch yr eitem drwy ei gamddefnyddio neu drwy ddamwain;
- ☞ Lle mae diffyg yn codi oherwydd traul dderbyniol;
- ☞ Gwnaethoch gamgymeriad wrth brynu'r eitem;
- ☞ Nid oeddech wedi profi'r eitem cyn ei brynu;
- ☞ Roedd y nwyddau'n anrheg i chi. Yr unig un sydd ag unrhyw hawliau yn yr amgylchiadau hyn yw prynwr y nwyddau heblaw am achlysuron lle mae'r gwerthwr yn gwybod bod y nwyddau'n cael eu prynu ar gyfer rhywun arall **ac** nad yw'r gwerthwr yn eithrio hawliau trydydd parti fel a nodir yn **Neddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999**.


Dyma'ch hawliau sylfaenol fel defnyddiwr.

Ni all hysbysiadau na phrint bach eu cymryd oddi wrthych.

Esgusodion Cyffredin

- ☛ **Bai'r gwneuthurwr yw.** Mae'n bosibl bod gennych hawliau ychwanegol yn erbyn y gwneuthurwr dan warant, ond nid yw hyn yn dileu rhwymedigaeth y gwerthwr i ddelio â'ch cwyn. Gallai fod yn rhesymol caniatáu i'r gwerthwr gael barn y gwneuthurwr.
- ☛ **Roedd y nwyddau wedi eu gostwng.** Mae gennych yr un hawliau wrth brynu 'nwyddau sêl'. Ni all y gwerthwr arddangos hysbysiadau'n dweud 'dim ad-daliadau' ar nwyddau sêl.
- ☛ **Nid oes derbynneb gennych.** Mae gennych yr un hawliau yn erbyn y cyflenwr hyd yn oed os collwch eich derbynneb er bydd gofyn i chi ddarparu rhyw brawf o'r pryniant. Fodd bynnag, hyd yn oed heb dderbynneb a phrawf pryniant, gallech wneud hawliad dan warant.

PRYNU'N BREIFAT



Os prynwch o werthwr preifat e.e. car neu nwyddau eraill o hysbyseb yn y papur newydd, mae'r gyfraith yn rhoi llai o hawliau i chi.

Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r nwyddau fod fel a ddisgrifiwyd nhw yn unig. Nid oes raid iddynt fod yn rhydd o ddiffygion na'n addas i'w pwrpas. **Byddwch yn ofalus!** Dylech archwilio'r nwyddau'n ofalus cyn prynu. Gallai fod yn syniad da cael barn arbenigwr os ydynt yn ddrud e.e. car neu hen beth.

Os yw'r gwerthwr yn dweud rhywbeth camarweiniol mewn perthynas â'r nwyddau ac y prynwch nhw ar sail hyn, gallech roi cynnig ar feddyginiaeth yn ôl y gyfraith, ond mae hyn yn anodd i'w orfodi. Mae'n aml yn arfer da gofyn am ddisgrifiad o'r nwyddau'n ysgrifenedig.

Mae'n anghyfreithlon i fanwerthwr ffugio bod yn werthwr preifat a gellir erlyn y manwerthwr. Bydd yn ceisio rhwystro eich hawliau statudol. Os ydych wedi prynu oddi wrth manwerthwr, bydd eich hawliau statudol arferol yn gymwys.

2: Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau wrth Brynu Gwasanaethau

Gall gwybod eich hawliau roi hyder i chi a'ch rhoi mewn sefyllfa fargeinio gryfach.

Bob tro y talwch am wasanaeth, er enghraifft, gan adeiladwr, sychlanhawr, asiant teithio, ayb, rydych yn mynd i contract gyda darparwr y gwasanaeth ac mae gennych hawl i ddisgwyl safonau penodol. Mae'n bwysig i chi ddangos yr hyn y cytunoch arno gyda'r manwerthwr a, lle'n bosibl, dylech gael manylion y contract yn ysgrifenedig.

Gosodir allan y gyfraith mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn **Neddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau 1994 a Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002**. Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, dylid cyflawni gwasanaeth: -



- ☛ â gofal a medr rhesymol (sy'n golygu y dylai gael ei gyflawni i safon briodol o waith da);
- ☛ fewn amser rhesymol;
- ☛ am bris rhesymol. Os pennwyd y pris o'r dechrau, ni allwch gwyno'n hwyrach ei fod yn afresymol. Mae'n bosibl mai cynnig call neu amcangyfrifiad y gall y manwerthwr ei roi i chi. Os cytunwch ar bris penodol, mae hwn yn bris ac yn eich rhwymo.

Nwyddau a Gyflenwir fel rhan o Contract Gwasanaeth

Lle defnyddir unrhyw ddefnyddiau wrth ddarparu gwasanaethau neu lle mae'r gwasanaeth yn cynnwys darparu nwyddau h.y. gwresogwyr, unedau cegin, ayb, mae unrhyw nwyddau/defnyddiau a ddarperir yn cael eu cwmpasu gan yr un hawliau statudol ag a amlinellir yn y darn 'Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau wrth Brynu Nwyddau'.

Rhaid i'r nwyddau gwrdd â'r un gofynion o ansawdd boddhaol, bod yn unol â'r disgrifiad ac yn addas i'w pwrpas. Yn ogystal, mae Rheoliadau 2002 yn darparu meddyginiaeth bellach lle:


- ☞ nad yw gwaith gosod y manwerthwr yn foddhaol
- ☞ mae diffygion difrifol yn y cyfarwyddiadau gosod
- ☞ nad yw'r nwyddau'n cydweddu ag unrhyw ddatganiadau cyhoeddus a wnaed amdanynt e.e. hysbysebion
- ☞ mae gan gynnyrch a gomisiynwyd yn arbennig fethiannau perthnasol.

TERMAU ANNHEG

Mae'n gyffredin i gontractau am wasanaethau gynnwys termau ac amodau sy'n ceisio hepgor neu gyfyngu atebolrwydd am dorri contract, niwed, difrod, ayb. Fel defnyddiwr, nid ydych yn cael eich rhwymo gan derm safonol mewn contract gyda manwerthwr os yw'n pwyso'r contract yn annheg yn eich erbyn. Rheoleiddir hyn gan **Ddeddf Termau Contract Annheg 1977** a **Rheoliadau Termau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999**.

**Dylech adrodd am achlysuron o dermau annheg mewn
contractau defnyddwyr i
Cyswllt Defnyddwyr Cymru**

08454 040505



3: Gwybod y Gyfraith – Prynu ar Gredyd

Mae prynu nwyddau â chredyd yn rhoi peth diogelwch ychwanegol i chi lle mae'r nwyddau'n ddiffygiol neu lle mae gwasanaeth yn anfoddhaol, os yw'n costio mwy na £100. Bydd hyn yn gymwys hyd yn oed os mai'r blaendal yn unig a dalwyd â chredyd.

Adran 75 o Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974

Mae'r adran hon yn gwneud y cwmni cerdyn credyd neu gwmni cyllid yn atebol am unrhyw hawliad sydd gennych yn erbyn y gwerthwr, sy'n codi lle mae nwyddau'n ddiffygiol neu lle cawsant eu camgynrychioli neu am safon gwaith gwael a gwasanaethau annigonol, ayb.



Mae Adran 56 Deddf Credyd Defnyddwyr

yn gwneud y cwmni credyd neu gyllid yn atebol am unrhyw gynrychiolaethau a wnaed yn ystod trafodaethau rhyngoch chi a'r cyflenwr a ddigwyddodd cyn i'r contract gael ei wneud ac a ymddangosodd i fod yn anwir yn hwyrach.

Eich Hawl i Gael Copi o Gytundebau

Pan lofnodwch gytundeb credyd dylech gael copi o'r cytundeb hwnnw. Dylech dderbyn ail gopi drwy'r post gyda llofnod y cwmni cyllid os na llofnodwyd y cytundeb ar eu rhan ar yr adeg y llofnodoch chi. Unwaith i bawb lofnodi, mae'r cytundeb yn gyfreithiol orfodol.

Mae dau fodd lle gallech ganslo cytundeb credyd, ar ôl ei lofnodi – gweler 'Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau Canslo'.

Gwrthod Talu

Byddwch yn ofalus o atal taliadau sy'n ddyledus dan gytundeb credyd. Byddwch yn torri termau'r cytundeb a gallech gael eich erlyn am unrhyw ôl-ddyledion. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd cael credyd yn y dyfodol.

CYTUNDEBAU HURBRYNU A GWERTHU AMODOL

Wrth brynu nwyddau ar gytundeb hurbrynu a gwerthu amodol, y cwmni cyllid sy'n berchen ar y nwyddau hyd nes i chi gael y tâl terfynol. Mae rheolau ychwanegol sy'n gymwys yn yr amgylchiadau hyn y dylech wybod amdanynt.

Defnyddir y math hwn o gytundeb fwyaf aml wrth brynu cerbydau

- ☛ Os ydych yn methu talu'ch ad-daliadau, gall y car gael ei ailfeddiannu. Unwaith i chi dalu mwy na thraen o'r cyfanswm sy'n ddyledus, rhaid i'r cwmni cyllid gael eich caniatâd i ailfeddiannu'r car neu gael gorchymyn llys.
- ☛ Os yw'r cwmni cyllid yn ailfeddiannu'r cerbyd, gallech fod yn atebol am y swm sy'n weddill ar y cytundeb llai'r elw a wneir wrth werthu'r cerbyd mewn ocsiwn.
- ☛ Gallwch derfynu'r cytundeb unwaith i chi dalu hanner y cyfanswm, ynghyd ag unrhyw ôl-ddyledion, os ydych yn dychwelyd y nwyddau mewn cyflwr rhesymol.
- ☛ Y cwmni cyllid, fel perchennog y nwyddau, sy'n gyfrifol am eu cyflwr dan **Ddeddf Cyflenwi Nwyddau (Termau Goblygedig) 1973 fel y'i diwygiwyd**. Byddai unrhyw hawliad nad yw'r nwyddau o ansawdd

boddhaol, nad ydynt yn unol â'u disgrifiad neu'n anaddas i'w pwrpas yn erbyn y cwmni cyllid. Byddai'r cyflenwr yn atebol i'r cwmni cyllid. Gweler Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau wrth Brynu Nwyddau.



**Am gyngor pellach ar unrhyw un o'r materion hyn,
cysylltwch â**

Cyswllt Defnyddwyr Cymru

08454 040505

4: Gwybod y Gyfraith – Gwarantau

Ers 31 Mawrth 2002, mae **Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002** yn gymwys i warantau. Darpara'r rheoliadau fod gwarant yn contract cyfreithiol orfodol gyda chyflenwr y gwarant, lle darperir gwarant gyda'r nwyddau. Yn gyffredinol, gwneuthurwr y nwyddau fydd hyn. Gallech ddewis olrhain hawliad dan contract gwerthu'r nwyddau neu dan y gwarant.

Ar adegau, gallai fod yn well gwneud hawliad dan warant a allai roi hawliau i chi yn ogystal â'ch hawliau statudol – gweler Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau wrth Brynu Nwyddau. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle mae busnes cyflenwr y nwyddau neu wasanaethau wedi methu neu lle mae'n gwrthod datrys y broblem.

Hawlio dan Warant

Os bwriadwch hawlio ar warant, dylech: -

- ☛ ddarllen y termau'n ofalus iawn i sicrhau bod yr hyn rydych yn hawlio amdano'n cael ei gwmpasu;
- ☛ sicrhau y gwneir eich hawliad o fewn unrhyw derfynau amser;
- ☛ darganfod a oes unrhyw gostau ychwanegol. A ddisgwylir i chi dalu rhan o'r costau?
- ☛ gwirio a oes raid i chi dalu am gost y gwaith eich hun a'i hawlio'n ôl oddi wrth y cwmni gwarant yn hwyrach neu a oes tâl galw allan yn daladwy cyn i'r cwmni gyflawni unrhyw waith.

Cofiwch

- ☞ Gallwch barhau i ddibynnu ar eich hawliau statudol yn erbyn y gwerthwr (gweler Gwybod y Gyfraith – Eich Hawliau wrth Brynu Nwyddau);
- ☞ Gallech weithredu yn erbyn y cwmni sy'n darparu'r gwarant am dorri'r contract ond gofynnwch am gyngor pellach;
- ☞ Mae **Deddf Cyfyngiadau 1980** yn rhoi terfyn o chwe blynedd ar hawliadau am dorri contract.

Gwarantau a Gefnogir gan Yswiriant

Os cynigir gwarant a gefnogir gan yswiriant i chi, sicrhewch eich bod yn cael tystysgrif yswiriant yn rhoi manylion y cwmni yswiriant. Daw rhai cynlluniau sy'n ymwneud â gwaith adeiladu i rym dim ond os yw cyflenwr y gwasanaeth yn ymddiddymu neu'n methu.

Gall gwarantau estynedig a werthir i dalu am gostau trwsio fod yn ddrud a dylech ystyried cost yr yswiriant yn erbyn unrhyw filiau trwsio tebygol.

Am gyngor pellach ar unrhyw un o'r materion hyn,

cysylltwch â

Cyswllt Defnyddwyr Cymru

08454 040505

5: Sut i Gwyno'n Bersonol

Pan fydd rhywbeth o'i le ar y nwyddau a brynoch neu pan fo gwasanaethau'n is-safonol, gall gwybod eich hawliau fel defnyddiwr eich rhoi mewn sefyllfa gryfach a'ch helpu i ddatrys y broblem er eich budd chi.

I gwyno'n llwyddiannus, rhaid i chi wybod eich hawliau cyfreithiol fel defnyddiwr. Rhaid i chi hefyd wybod sut i gwyno'n effeithiol drwy:-

- ☞ osod allan eich hawliad;
- ☞ cysylltu â'r unigolyn priodol;
- ☞ defnyddio iaith briodol;
- ☞ datgan eich achos yn glir.

Cyn cwyno, sicrhewch y gwyddoch yr hyn a ddymunwch. A ddymunwch ad-daliad neu iawndal neu a ddymunwch ymddiheuriad gan yr unigolyn neu'r sefydliad rydych yn cwyno yn eu cylch. Beth bynnag eich dymuniad, gwnewch hyn yn glir o'r dechrau. Dylech gael cyngor am eich hawliau cyfreithiol. Darllenwch y daflen 'Gwybod y Gyfraith' berthnasol.

I'ch Helpu

- ☞ Cwynwch dim ond pan fo angen a phan fo'ch cwyn yn gyfiawn;
- ☞ **Stopiwch ddefnyddio'r eitem** – gallech gollu'r hawl i wrthod y nwyddau os parhewch i'w defnyddio unwaith i chi ddarganfod eu bod yn ddiffygiol;
- ☞ Dywedwch wrth y manwerthwr unwaith i chi ddarganfod y diffyg;

- ☞ Darganfyddwch eich hawliau cyn i chi gwyno;
- ☞ Cwynwch i'r unigolyn priodol, rhywun sydd â'r awdurdod i ddatrys y broblem. Er enghraifft, gallai fod yn berchennog busnes bach neu reolwr siop fawr;
- ☞ Rhowch gyfle i'r manwerthwr neu'r sefydliad ddatrys eich problem cyn cychwyn ar achos llys;
- ☞ Peidiwch â cholli'ch tymer, rhegu na bod yn bersonol amharchus. Byddwch yn bendant, cwrtais ond penderfynol; esboniwch y broblem a sut y dymunwch iddi gael ei datrys;
- ☞ Byddwch yn amyneddgar, gallai gymryd peth amser i ddatrys hyd yn oed problem syml;
- ☞ Os na ddatrysir eich cwyn drwy siarad â'r manwerthwr, bydd raid i chi roi'r gwyn yn ysgrifenedig.

**Am gyngor pellach am unrhyw un o'r materion hyn,
cysylltwch â
Cyswllt Defnyddwyr Cymru**


08454 040505

6: Sut i Gwyno drwy Lythyr

Os oes gennych broblem gyda manwerthwr (adeiladwr, banc neu gwmni teithio, ayb), gallai llythyr a eiriwyd yn ofalus helpu i unioni'r fantol.

Pa un a brynoch nwyddau diffygiol, cawsoch wyliau nad oeddent yn debyg i'r disgrifiad yn y llyfryn gwyliau neu pa un a ydynt wedi darganfod camgymeriadau yn eich cyfriflen banc, byddwch yn dymuno datrys y broblem cyn gynted â phosibl. Y peth olaf mae rhywun yn ei ddymuno yw brwydr hir am iawndal. Bydd gwybod sut i wneud cwyn yn gwella eich tebygrwydd o lwyddo.

Dylai'ch llythyr gynnwys y canlynol: -



- Amlinelliad bras o'r gwyn h.y. ble brynoch y nwyddau neu wasanaethau a beth yw'r broblem. Osgowch fod yn anghwrtais neu'n ddilornus;
- Sail glir a phriodol i'ch hawliad h.y. **Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd)** neu **Ddeddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 (fel y'i diwygiwyd)**;
- Cais clir am yr iawndal a ddymunwch a therfyn amser rhesymol ar gyfer ymateb. Gallai hyn fod yn 14 diwrnod mewn achos cais am ad-daliad ond yn hwy os dymunwch gywiro problem fawr.

I'ch Helpu

- ☛ Sicrhewch fod gennych hawliad cyfiawn;
- ☛ Darganfyddwch enw a swydd y sawl y dylech ysgrifennu atynt;
- ☛ Penderfynwch ar yr hyn a ddymunwch – ad-daliad, trwsiad, nwyddau newydd neu ymddiheuriad, dewch i adnabod y gyfraith a'ch hawliau;
- ☛ Sicrhewch fod eich llythyr yn glir, teipiwrch ef os yn bosibl;
- ☛ Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i'r manwerthwr e.e. eich cyfeiriad llawn, côd post, rhif archeb neu rif cyfrif;
- ☛ Dywedwch wrth y manwerthwr ble gellid cysylltu â chi yn ystod oriau swyddfa;
- ☛ Cofiwch ddyddio eich llythyr a defnyddiwch unrhyw gyfeirnod neu rifau cyfrif perthnasol;
- ☛ Cadwch gopi o'ch llythyr fel cofnod;
- ☛ Peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol, anfonwch lungopiâu;
- ☛ Anfonwch eich llythyr drwy gludiad cofnodedig a chadwch brawf o'i bostio;
- ☛ Byddwch yn amyneddgar – gall gymryd amser i ddatrys hyd yn oed problem syml.

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb i'ch llythyr neu os na chewch ymateb, gallech ystyried defnyddio'r weithdrefn hawliadau bach yn y llys sirol.

Am gyngor pellach ar unrhyw un o'r materion hyn, cysylltwch â'r

Cyswllt Defnyddwyr Cymru

08454 040505

7: Gwybod y Gyfraith – Hawliau Canslo

Bydd y rhan fwyaf o gontractau'n gyfreithiol orfodol o'r adeg y cânt eu gwneud. Rhaid i'r cyflenwr gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau a nodir yn y contract a rhaid i'r prynwr dalu'r pris prynu.

Yn gyffredinol, ni all cwsmeriaid dynnu'n ôl o gontract gorfodol oherwydd eu bod wedi newid eu meddyliau. Ystyrir hyn yn dorri contract ar ran y cwsmer a gallai olygu y bydd raid i'r cwsmer dalu iawndal i dalu am unrhyw golled o ran elw a threuliau.

Fodd bynnag, mae rhai achosion lle gall cwsmer ganslo contract heb gosb.

CYTUNDEBAU CREDYD DEFNYDDWYR

1. Diddymiad

Pan lofnodwch gytundeb credyd, gallwch ddiddymu'r contract ar unrhyw adeg cyn i'r cytundeb gael ei lofnodi gan yr ochr arall ar ran y benthyciwr.



Nid oes contract hyd nes i'r ddwy ochr gytuno arno. Mae hyn yn gymwys pa un a ydych wedi llofnodi gartref neu ar eiddo busnes.

2. Canslo

Os lofnodwch gytundeb credyd gartref yn dilyn cyswllt wyneb yn wyneb â'r cyflenwr, rhaid i chi gael rhybudd ysgrifenedig o'ch hawliau canslo. Dylai'r rhain fod wedi eu cynnwys yn y cytundeb a lofnodwch a dylech gael copi o'r cytundeb hwn ar adeg ei lofnodi.

Yn ogystal, dylech dderbyn ail gopi o'r cytundeb wedi ei lofnodi gan y cwmni cyllid drwy'r post neu rybudd ar wahân o'ch hawliau canslo. Mae gennych bum diwrnod o dderbyn yr ail gopi hwn i ganslo'r cytundeb hwn.

Os canslwch, mae gennych hawl i adfer unrhyw flaendal rydych wedi ei dalu.

**Am gyngor pellach am unrhyw un o'r materion hyn,
cysylltwch â**

Cyswllt Defnyddwyr Cymru

08454 040505

GWERTHU AR STEPEN DRWS (I FFWRDD O EIDDO MANWERTHU)


Mae Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Canslo Contract a Wnaed i Ffwrdd o Eiddo Busnes) 1987 fel y'u diwygiwyd yn rhoi cyfnod o saith diwrnod i chi ystyried, dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:-

- ☞ Mae'r contract yn werth mwy na £35;
- ☞ Llofnodwyd y contract yn eich cartref neu i ffwrdd o eiddo busnes y cyflenwr;
- ☞ Ni ofynnoch am yr ymweliad ond cychwynnwyd ef gan y cyflenwr, naill ai dros y ffôn neu drwy ymweliad blaenorol;
- ☞ Mae'n gontract defnyddwyr. Nid yw'n cynnwys contractau busnes.

Rhaid i chi gael rhybudd ysgrifenedig o'ch hawl i ganslo. Gallwch ganslo o fewn saith diwrnod yn dilyn gwneud y contract ac adfer unrhyw flaendal.

SUT I GANSLO

- ☞ **Canslwch o fewn y cyfnod ystyried.**
- ☞ Ysgrifennwch at y cyflenwr neu gwmni cyllid yn dweud wrthynt eich bod yn canslo'r cytundeb, yn unol â'ch hawliau. Cwblhewch a dychwelwch unrhyw fonyn canslo a ddarperir.
- ☞ Gofynnwch am dystysgrif postio.
- ☞ Cadwch gopi o'ch llythyr/bonyn canslo.
- ☞ Cadwch unrhyw nwyddau'n ddiogel hyd nes y cesglir nhw.



METHIANT I ROI RHYBUDD O HAWLIAU CANSLO

Os ydych wedi llofnodi contract/cytundeb credyd gartref ac nad ydych wedi cael hawliau canslo, mae'n bosibl na ellir gorfodi'r cytundeb yn eich erbyn a gallai'r cyflenwr fod wedi troseddu.

Am gyngor pellach ar unrhyw un o'r materion hyn,

cysylltwch â'r

Cyswllt Defnyddwyr Cymru

08454 040505

8: Gwybod eich Hawliau – Gwerthu o Bell/Siopa Gartref

Dan **Reoliadau Diogelu Defnyddwyr (Gwerthu o Bell) 2000**, os ydych yn siopa am nwyddau neu wasanaethau dros y ffôn, post, rhyngrwyd neu deledu digidol, mae gennych hawl i dderbyn y canlynol: -

- ☞ gwybodaeth glir;
- ☞ cyfnod canslo am unrhyw reswm;
- ☞ diogelwch yn erbyn twyll cerdyn credyd.

Mae'r rheolau'n gymwys ar gyfer cwsmeriaid yn prynu bron i bob math o nwyddau drwy gyfrwng siopa gartref (mae yna eithriadau i'r rheolau sy'n cynnwys gwasanaethau hamdden, cludiant a llety a ddarperir ar ddyddiadau penodol, gwerthu tir, gwasanaethau ariannol, ocsiynau, peiriannau gwerthu).

Cyn i chi brynu, rhaid i chi gael y wybodaeth ganlynol: -



- ☞ enw a chyfeiriad y gwerthwr;
- ☞ disgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau;
- ☞ pris, gan gynnwys unrhyw drethi;
- ☞ costau cludo, os yn gymwys;
- ☞ trefniadau talu a chludo;
- ☞ hawliau canslo ac atebolrwydd am gostau dychwelyd nwyddau;
- ☞ ar gyfer gwasanaethau – hyd lleiaf y contract.

HAWL I GANSLO

Mae gan y defnyddiwr hawl i ganslo o fewn saith diwrnod yn dechrau o'r diwrnod ar ôl y diwrnod y derbyniwyd y nwyddau.

Mewn contract am wasanaethau, mae'r hawl i ganslo o'r diwrnod ar ôl gwneud y contract. Lle mae'r contract am wasanaethau, unwaith i'r gwasanaeth ddechrau, mae'r hawl i ganslo'n cael ei cholli.

Os yw'r cyflenwr yn methu â rhoi'r wybodaeth hon, estynnir y cyfnod canslo hyd at dri mis a saith diwrnod o'r diwrnod ar ôl i'r contract ddod i ben.

EITHRIADAU I'CH HAWLIAU CANSLO

Mae rhai eithriadau penodol i hawliau canslo sy'n cynnwys y canlynol: -

- ☞ nwyddau wedi eu personeleiddio h.y. nwyddau a wnaed at fanylion personol;
- ☞ nwyddau darfodus e.e. blodau;
- ☞ recordiadau sain/fideo heb eu selio, meddalwedd cyfrifiadur;
- ☞ papurau newydd

Mae'r rheolau hyn yn gymwys lle mae'r defnyddiwr yn prynu heb gyswllt uniongyrchol â'r cyflenwr h.y. dros y ffôn, drwy'r post, teledu digidol neu'r rhyngwyd. Nid ydynt yn gymwys ar gyfer nwyddau a archebwyd at ddefnydd busnes.

Dylid cyflawni archebion o fewn 30 diwrnod oni bai eich bod yn cytuno fel arall.

Wrth ganslo, mae'r gwerthwr yn gyfrifol am gost dychwelyd y nwyddau, oni bai bod y contract yn nodi bod yn rhaid i'r defnyddiwr ddychwelyd unrhyw nwyddau. Dylid derbyn unrhyw ad-daliad o fewn 30 diwrnod.

**Am gyngor pellach ar unrhyw un o'r materion hyn,
cysylltwch â
Cyswllt Defnyddwyr Cymru**

08454 040505


9: Gwybod y Gyfraith – Gwyliau Parod

Cynlluniwyd **Rheoliadau Teithio Parod, Gwyliau Parod a Theithiau Parod 1992** i ddiogelu'r defnyddwyr a chynhwysir llawer o'r darpariaethau yng Nghôd Ymarfer ABTA.

Dywed y rheoliadau bod yn rhaid i gwmni teithiau sicrhau eich bod wedi eich diogelu drwy gael yswiriant digonol a threfniadau yn eu lle ar gyfer eich taith gartref os ydynt yn methu tra'ch bod chi ar eich gwyliau. Rhaid iddynt sicrhau bod y llety ar gael ar eich cyfer. Mae unrhyw ddatganiadau neu ddisgrifiadau ffug neu anwir a wneir am y gwyliau, y gwesty neu unrhyw gyfleusterau yn cael eu cwmpasu gan y rheoliadau hefyd.

OS YW PETHAU'N MYND O'U LLE CYN I CHI FYND AR EICH GWYLIU:

Os yw'r cwmni teithiau'n ceisio gwneud newid sylweddol e.e. newid y gwesty neu'r lle, mae'n ddigon posibl eu bod yn torri'r contract. Dylech gael y dewis o ganslo a chael ad-daliad llawn.



Mae gan y cwmni ddyletswydd i geisio dod o hyd i wyliau priodol eraill sydd:-

- ☞ o'r un safon
- ☞ safon is ac ad-daliad o unrhyw wahaniaeth mewn pris
- ☞ safon uwch heb gost ychwanegol i chi

Gofynnir i chi hysbysu'r cwmni teithiau o'ch penderfyniad cyn gynted â phosibl.

Gallai anawsterau ddatblygu lle ceir dadl ynghylch yr hyn a olygir gan newid mawr/sylweddol a gallai fod angen i chi gael cyngor pellach.

OS YW PETHAU'N MYND O LE AR Y GWYLIAU

Wrth gyrraedd, os gwelwch nad yw canran sylweddol o'r gwasanaethau a gynigiwyd yn cael eu darparu, rhaid i'r cwmni teithiau wneud trefniadau priodol eraill heb gost ychwanegol i chi mewn ymdrech i'ch galluogi i barhau â'r gwyliau. Gallai fod hawl gennyh i iawndal hefyd.

Os nad yw'r trefniadau hyn yn dderbyniol i chi **a bod rheswm da am hyn**, rhaid i'r cwmni teithiau roi cludiant gartref i chi a chynnig iawndal lle'n briodol.

BETH I'W WNEUD OS OES GENNYCH GWYN

- ☞ Dywedwch wrth gynrychiolydd y lle gwyliau ar unwaith;
- ☞ Gofynnwch am ffurflen gwyno swyddogol a chwblhewch hi yn y lle gwyliau;
- ☞ Tynnwch luniau neu fideo o'r problemau;
- ☞ Os bydd gofyn i chi dalu am bethau ychwanegol, cadwch dderbynebau;
- ☞ Cadwch gofnod bras o'r problemau ynghyd â dyddiadau ac unrhyw weithredu;

- ☛ Gofynnwch i deithwyr eraill a fyddent yn ystyried gweithredu fel tystion i gefnogi eich cwyn.
- ☛ Ysgrifennwch at bencadlys y cwmni teithiau cyn gynted â phosibl;
- ☛ Defnyddiwch eich cyfeirnod bwcio a byddwch yn benodol am y problemau a'r iawndal a ddymunwch;
- ☛ Amgaewch gopiâu o unrhyw dystiolaeth e.e. lluniau, derbynebâu;
- ☛ Os ydych wedi talu â cherdyn credyd, anfonwch gopi o'r llythyr at y cwmni credyd;
- ☛ Byddwch yn benderfynol ac yn barod i ysgrifennu eto a pheidiwch â throi ymaith os nad ydych yn hapus â'r ymateb;
- ☛ Cysylltwch ag ABTA os yw'r cwmni'n methu ag ymateb i'ch llythyrau neu ddelio â'ch cwyn yn foddhaol.

**Am gyngor pellach ar unrhyw un o'r materion hyn,
cysylltwch â
Cyswllt Defnyddwyr Cymru**

08454 040505

10: Defnyddio Arbenigwr

Taflen Gyngor – Adroddiadau Arbenigwr

Mewn achos anghytundeb rhyngoch chi a manwerthwr o ran achos methiant nwyddau neu wasanaethau, gallai fod angen gofyn i arbenigwr annibynnol baratoi adroddiad. Dylid gwneud hyn dim ond ar ôl i chi ysgrifennu at y manwerthwr dan sylw yn rhoi manylion llawn o'ch hawliad ac ar ôl i'r manwerthwr ymateb, yn anghytuno ag achos y methiant neu ei ganlyniadau.

COFIWCH: Os yw o fewn chwe mis o ddyddiad y pryniant, y manwerthwr fydd yn gorfod profi nad oes diffyg. Mae'n bosibl na fydd angen i chi gael adroddiad arbenigwr.

Os yw'n fwy na chwe mis ac y bwriadwch gael adroddiad, rhaid i chi roi manylion llawn yr arbenigwr y bwriadwch ei ddefnyddio i'r manwerthwr er mwyn roi cyfle iddo gytuno neu wrthwynebu'r defnydd o'r arbenigwr hwnnw (rhaid rhoi rhesymau) a gwahoddiad i gyflwyno unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig a ddymuna eu rhoi i'r arbenigwr. Os yw eich hawliad yn mynd i'r llys sirol, bydd raid i chi ddangos eich bod chi a'r manwerthwr wedi cytuno ar arbenigwr neu y rhoddwyd cyfle i'r manwerthwr wrthwynebu'r arbenigwr a ddefnyddiwyd. Fel arall, mae'n bosibl na chewch ddefnyddio'r adroddiad i gefnogi eich achos.

Mae llythyr enghreifftiol yn y pecyn cefnogi hwn a allai fod yn ganllaw defnyddiol er mwyn llunio llythyr at y manwerthwr. Gallwch newid y geiriau i gydweddu â'ch achos neu'n unol â chyngor ymgynghorydd defnyddwyr.

11: Hawliad Bach yn y Llys Sirol

Os ydych wedi dilyn y cyngor rydym wedi ei ddarparu ond mae'ch cwyn yn dal heb ei datrys, gallech ystyried achos cyfreithiol drwy ddefnyddio gweithdrefn hawliau bach y llys sirol.

Mae hon yn weithdrefn syml a hawdd a gynlluniwyd i unrhyw un ganlyn hawliad heb gymorth cynrychiolaeth gyfreithiol am hawliadau dan £5,000.

Gallwch lawrlwytho ffurflenni o www.courtservice.gov.uk hefyd

I. Llythyr at y Gwerthwr yn Gwrthod Nwyddau Diffygiol

Eich Enw
A Chyfeiriad

Dyddiad -----

Perchennog neu Ysgrifennydd y Cwmni
Siop Ddodrefn
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr

Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd)

Ysgrifennaf mewn perthynas â **disgrifiad o'r nwyddau** a brynais oddi wrthy ch ar **dyddiad** am £..... .

Sylwais ar y diffygion hyn ar ôl derbyn y nwyddau.

- **Rhestrwch y diffygion**

Rwyf wedi cwyno i chi ynghylch y diffygion hyn yn syth ar ôl eu derbyn **ac nid wyf wedi clywed unrhyw beth pellach gennych/nid yw'r gwyn wedi ei datrys**. Yn unol â'm hawliau statudol dan Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd) h.y. bod y nwyddau o ansawdd boddhaol, yn unol â'u disgrifiad ac yn addas i'w pwrpas, ysgrifennaf i'ch cynghori fy mod yn gwrthod y nwyddau a dymunaf hawlio ad-daliad llawn (neu drwsiad/nwyddau newydd).

Edrychaf ymlaen at glywed gennych o fewn y 14 diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

II. Llythyr yn Gofyn am Drwsiad neu Nwyddau Newydd

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad -----

Perchennog neu Ysgrifennydd y Cwmni
Siop Offer Trydan
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Rheoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002

Ysgrifennaf mewn perthynas â **disgrifiad o'r nwyddau** a brynais oddi wrthyich ar **dyddiad** am £.....

Gwelais y diffygion canlynol ar ôl derbyn y nwyddau:

- **Rhestrwch y diffygion**

Cwynais i chi ynghylch y diffygion hyn yn syth ar ôl eu derbyn **ac nid wyf wedi clywed unrhyw beth pellach gennych/nid yw'r gwyn wedi ei datrys**. Yn unol â'm hawliau statudol dan Reoliadau Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau i Ddefnyddwyr 2002 h.y. bod y nwyddau o ansawdd boddhaol, yn unol â'u disgrifiad ac yn addas i'w pwrpas, ysgrifennaf i'ch cyngori fy mod yn gofyn am **drwsiad/nwyddau newydd**.

Edrychaf ymlaen at dderbyn ymateb o fewn y 14 diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

III. Llythyr cyn Achos – Ad-Daliad

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Siop Ddodrefn
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig **dyddiad** nad ydych wedi ymateb iddo. Amgaeaf gopi o'r llythyr hwnnw er gwybodaeth i chi.

Os na dderbyniaf ad-daliad llawn o fewn y saith diwrnod nesaf, ni fydd dewis gennyf ond cychwyn achos yn y llys sirol heb rybudd pellach i chi.

Os bydd raid gwneud hyn, dylech nodi fy mwriad i hawlio ad-daliad llawn, ynghyd â llog ac unrhyw gostau eraill sy'n codi.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

IV. Llythyr at y Gwerthwr yn Gofyn am Drwsiad am Ddim - Nwyddau

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad -----

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Siop Ddodrefn
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd)

Ysgrifennaf mewn perthynas â **disgrifiad o'r nwyddau** a brynais oddi wrthyich ar **dyddiad** am £..... Mae'r **nwyddau** wedi datblygu'r diffygion canlynol:-

- **Rhestrwch y diffygion**

Rwyf wedi cwyno i chi ynghylch y diffygion hyn eisoes ond, hyd yn hyn, nid wyf wedi derbyn ymateb.

Yn unol â'm hawliau statudol dan Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd) h.y. bod y nwyddau o ansawdd boddhaol, ysgrifennaf i ofyn am drwsiad ar unwaith.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb o fewn y 14 diwrnod nesaf. Os na ddigwydd hyn, ni fydd dewis gennyf ond i gychwyn achos yn eich erbyn.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

V. Llythyr yn Gofyn am Drwsiad am Ddim - Gwasanaethau

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad -----

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Y Cwmni
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 (fel y'i diwygiwyd)

Ysgrifennaf mewn perthynas â chyflenwi a gosod **disgrifiad o'r gwasanaeth** ar **dyddiad** am £..... .

Mae angen sylw ar y diffygion canlynol:-

- **Rhestrwch nhw**

Yn unol â Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982, ysgrifennaf i ofyn i chi wneud trefniadau i ddychwelyd i'm eiddo a gwneud y gwaith adfer a/neu waith trwsio heb gost i mi o fewn y 14 diwrnod nesaf.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyich yn y 14 diwrnod nesaf gyda golwg ar ddatrys y mater hwn yn gyfeillgar.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

VI. Llythyr yn Nodi fy Mwriad i Gael Manwerthwr Arall i Gwblhau'r Gwaith

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad.....

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Yr Adeiladwyr
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig **dyddiad** mewn perthynas â **gwaith adfer/trwsio** ar gyfer **y cynnyrch**. Amgaeaf gopi o'r llythyr hwn er gwybodaeth i chi.

Sylwaf nad wyf wedi derbyn ateb gennych gyda golwg ar gwblhau'r gwaith angenrheidiol. Ysgrifennaf i'ch hysbysu na fydd dewis gennyf ond cael amcangyfrifon gan fanwerthwyr dibynadwy eraill i gwmpasu cost y gwaith trwsio, os na chaf eich cynigion boddhaol i ddatrys y mater yn y saith diwrnod nesaf.

Os na dderbyniaf tâl am y costau tybiedig hyn, fe'ch hysbysaf o'm bwriad i gychwyn achos yn y llys sirol. Os bydd angen gwneud hyn, byddaf yn hawlio am log a chostau achlysurol eraill.

Hyderaf y gallwn ddatrys y mater yn gyfeillgar er mwyn atal y sefyllfa hon ac edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthyich.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

VII. Llythyr Cyn Gweithredu – Costau Adfer

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad:

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Yr Adeiladwyr
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 (fel y'i diwygiwyd)

Cyfeiriaf at fy ngohebiaeth flaenorol mewn perthynas â'r mater hwn. Amgaeaf gopi o'r amcangyfrif gan **enw'r cwmni** am **gywiro/gwblhau'r** gwaith dan sylw.

Edrychaf ymlaen at dderbyn tâl am y swm hwn o fewn y saith diwrnod nesaf. Os na ddigwydd hyn, fe'ch hysbysaf o'm bwriad i gychwyn ar achos cyfreithiol yn y llys sirol heb rybudd pellach.

Os bydd raid i mi wneud hyn, dylech nodi y byddaf yn hawlio llog a chostau achlysurol hefyd.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

VIII. Llythyr yn Cytuno ar Adroddiad Arbenigwr

Dyddiad

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Yr Adeiladwyr
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Ynghylch: Ein Hanghytundeb

Mae'n ymddangos ein bod yn dal i anghytuno am **esboniwch yr anghytundeb**. Gan na allwn gyrraedd cytundeb mewn perthynas ag achosion/canlyniadau'r methiant, nid oes dewis ond cyfarwyddo arbenigwr annibynnol a chael barn broffesiynol. Fe'm cynghorwyd bod y rheolau cyfiawnder sifil yn gofyn i'r arbenigwr fod yn gyd-arbenigwr unigol ac mai dyletswydd yr arbenigwr yw i'r llys.

Cynigiaf **enw'r arbenigwr** sy'n gymwys ym **maes yr arbenigedd e.e. gwydro, arolygu** ac sy'n disgrifio ei hun fel arbenigwr yn y maes hwn. *Amgaeaf gopi o'r llenyddiaeth mewn perthynas â'r arbenigwr/corff hwn er gwybodaeth i chi *(dileër os nad yw'n gymwys).

Os oes gennych unrhyw wrthwynebiad i'r arbenigwr hwn, a fydddech gystal â'm hysbysu o'ch rhesymau o fewn 14 diwrnod. Os na chlywaf gennych, byddaf yn cyfarwyddo'r arbenigwr i fynd yn ei flaen. Wrth gwrs, fe'ch gwahoddaf i gyflwyno unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig i mi i'w rhoi i'r arbenigwr hwn. Os dymunwch fod yn bresennol yn ystod unrhyw archwiliad a allai ddigwydd, rhowch wybod i mi.

Pris yr adroddiad yw £.. Bydd y pris hwn yn cael ei ychwanegu at unrhyw hawliad a wnaif yn eich erbyn ond fe'ch gwahoddaf i rannu'r gost hon ar hyn o bryd.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludriad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

IX. Llythyr at y Cwmni Cyllid – Nwyddau Diffygiol

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Rheolwr/Ysgrifennydd y Cwmni
Banc Unrhyw Dref
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 – Adran 75
Rhif Cyfrif

Amgaeaf gopi o lythyr rwyf wedi ei anfon at **enw a chyfeiriad y cyflenwr** heddiw. Mae'r llythyr yn manylu ar y problemau a brofwyd gyda **manylion am y cynnyrch** a brynais ar **dyddiad** am £.....

Prynais y nwyddau drwy **gytundeb cyllid/cerdyn credyd** gyda'ch cwmni chi, fel a fanylir uchod. Yn unol â darpariaethau Adran 75 Deddf Credyd Defnyddwyr 1974, rydych yn atebol ar y cyd â'r cyflenwr am unrhyw dorcytundeb. Felly, mae gennyf hawl gyfreithiol i hawlio yn eich erbyn.

Dymunaf wrthod y nwyddau a hawlio ad-daliad llawn o'r pris prynu.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych o fewn y 14 diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

X. Llythyr at y Cwmni Cyllid – Nwyddau Diffygiol a Hurbrynwyd

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Rheolwr/Ysgrifennydd y Cwmni
Banc Unrhyw Dref
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr

Deddf Cyflenwi Nwyddau (Termau Goblygedig) 1973 fel y'i diwygiwyd
Rhif Cyfrif

Ysgrifennaf mewn perthynas â cherbyd modur a brynais, **rhif cofrestru**, a ddarparwyd gan **enw'r modurdy**.

Prynwyd y nwyddau drwy **gytundeb hurbrynu** gyda'ch cwmni fel a fanylir uchod. Yn unol â darpariaethau Deddf Cyflenwi Nwyddau (Termau Goblygedig) 1973, rydych yn atebol am gyflwr y **cerbyd, rhif cofrestru**, fel perchennog a chyflenwr y cerbyd hwnnw. Mae gennyf hawl gyfreithiol felly i hawlio yn eich erbyn am unrhyw dorcytundeb.

Mae gan y cerbyd y diffygion canlynol:-

❖ Rhestrwch y diffygion

Gan nad yw hyn yn foddhaol, dymunaf hawlio **ad-daliad llawn o'r taliadau a wnaed/cost y trwsadau angenrheidiol**.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn y 14 diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Copi at: enw a chyfeiriad y modurdy.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

XI. Llythyr at y Cwmni Cyllid - Trwsiadau

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Rheolwr/Ysgrifennydd y Cwmni
Cwmni Cyllid
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 – Adran 75
Rhif Cyfrif –

Amgaeaf gopi o lythyr rwyf wedi ei anfon heddiw at **enw a chyfeiriad y cyflenwr** mewn perthynas â phroblemau rwyf wedi eu profi gyda **manylion am y cynnyrch** a brynais oddi wrthynt.

Talais amdano â **cherdyn credyd/drwy gytundeb cyllid** gyda'ch cwmni chi. Felly, dan ddarpariaethau Adran 75 o Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974, rydych yn gyd-atebol am unrhyw dorcytundeb.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynigion gyda golwg ar ddatrys y mater a buaswn yn gwerthfawrogi ymateb o fewn y 14 diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

XII. Llythyr yn Tynnu'n ôl o Gytundeb Credyd Defnyddwyr a Reoleiddir

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Rheolwr/Ysgrifennydd y Cwmni
Y Modurdy
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Credyd Defnyddwyr 1974
Cyfeirnod

Cyfeiriaf at y cytundeb credyd a lofnodwyd ar eich eiddo ar **dyddiad**. Dylech nodi fy mod yn dymuno diddymu'r cytundeb hwnnw.

Gan na weithredwyd y cytundeb yn gyfreithlon yn unol â darpariaethau Deddf Credyd Defnyddwyr 1974, mae gennyf hawl i'w ddiddymu ac adfer fy mlaendal o £.....

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cadarnhad bod y cytundeb wedi ei ganslo ynghyd ag ad-daliad o'r blaendal o fewn y 10 diwrnod nesaf er mwyn dod â'r mater hwn i ben.

Yr eiddoch yn gywir
Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

XIII. Llythyr yn Canslo Cytundeb Credyd Defnyddwyr Cansladwy

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Rheolwr Cyfrifon Cwsmeriaid
Cwmni Benthg
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Credyd Defnyddwyr 1974
Cyfeirnod

Cyfeiriaf at y cytundeb credyd a lofnodwyd i ffwrdd o'r eiddo manwerthu ar **dyddiad**. Yn unol â'm hawliau canslo, ysgrifennaf i'ch cynghori fy mod yn dymuno canslo'r cytundeb.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cadarnhad bod y cytundeb wedi ei ganslo ac edrychaf ymlaen at dderbyn ad-daliad o'm blaendal o £.... o fewn y saith diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir
Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

XIV. Llythyr at y Masnachwr yn Gofyn am Gludiad – Amser yn Hanfodol

Enw a Chyfeiriad

Dyddiad

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Y Manwerthwr
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Deddf Gwerthu Nwyddau 1979/Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982
Rhif Archeb:

Ar archebais gyda chi am £..... a thalais £... amdano.

[Cytunais/deallais y byddai'r archeb yn barod erbyn neu o fewn wythnos] Hyd yn hyn, **nid wyf wedi derbyn y nwyddau/nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau.**

Dan y ddeddf uchod, gofynnir i chi **ddarparu'r nwyddau/gwblhau'r gwaith** o fewn amser rhesymol. Gan fod wythnos wedi mynd heibio ers i mi archebu, rydych wedi methu â chyflawni'r gofyn statudol hwn.

Rwy'n gwneud amser yn hanfodol nawr. Os nad ydych yn **darparu'r nwyddau/cwblhau'r gwaith** erbyn byddwch wedi torri'r contract a disgwyliaf i chi ad-dalu'r arian a dalais i chi.

Os methwch ag ad-dalu'r arian, ni fydd dewis gennyf ond cyhoeddi hawliad yn eich erbyn yn y llys sirol i adfer yr arian, ynghyd â llog ac unrhyw gostau achlysurol eraill heb rybudd pellach i chi.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn y diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.

XV. Methiant i Roi Llythyr Hawliau Canslo

Eich Enw a'ch Cyfeiriad

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni

Y Manwerthwr

Unrhyw Ffordd

Unrhyw X12 3YZ

Dyddiad:

Annwyl Syr

RHEOLIADAU DIOGELU DEFNYDDWYR (CANSLO CONTRACTAU A GWBLHAWYD I FFWRDD O'R EIDDO BUSNES) 1987

Ar (dyddiad), galwodd cynrychiolydd o'ch cwmni yn fy nghartref pan gytunais i brynu (disgrifiad o'r nwyddau).

[Ni dderbyniais hysbysiad o'm hawliau canslo sy'n ofynnol dan y rheoliadau uchod. Felly, ni ellir gorfodi'r contract ac fe'm hysbyswyd bod hyn yn drosedd.] neu

[Fe'ch hysbysaf o'm bwriad i ymarfer fy hawl i ganslo'r contract hwn o fewn saith diwrnod o ddyddiad y cytundeb.]

Gofynnaf i chi ad-dalu fy arian o fewn y saith diwrnod nesaf a chasglu'r (nwyddau) drwy drefniant. Byddaf yn cadw'r (nwyddau) yn ddiogel hyd nes y cesglir hwy ac ni fyddaf yn eu defnyddio.

Os methwch ag ad-dalu fy arian, ni fydd dewis gennyf ond cychwyn hawliad yn eich erbyn yn y llys sirol i adfer yr arian, ynghyd â llog a chostau achlysurol, heb rybudd pellach i chi.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll).

Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig.

Cofiwch lofnodi'r llythyr.

XVI. Llythyr yn Canslo Contract Arian a Lofnodwyd i Ffwrdd o'r Eiddo Busnes

Eich Enw
Eich Cyfeiriad

Dyddiad

Perchennog/Ysgrifennydd y Cwmni
Yr Adeiladwyr
Unrhyw Ffordd
Unrhyw X12 3YZ

Annwyl Syr,

Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr (Canslo Contractau a Gwblhawyd i Ffwrdd o'r Eiddo Busnes) 1987 fel y'u diwygiwyd
Cyfeirnod

Cyfeiriaf at y cytundeb a lofnodwyd yn fy nghartref ar **dyddiad** i brynu **manylion y cynnyrch**. Ysgrifennaf i'ch cyngori fy mod yn dymuno canslo'r contract, yn unol â'm hawliau canslo.

Gan na wahoddais chi, dan y rheoliadau uchod, mae gennyf saith diwrnod i ganslo'r cytundeb o'r diwrnod y bu i chi roi'r hawliau canslo hyn i mi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cadarnhad bod y contract rhyngom wedi ei derfynu, yn ogystal â'm blaendal o £ yn y saith diwrnod nesaf.

Yr eiddoch yn gywir

Llofnodwch a phrintiwch eich enw yma.

Enghraifft yw hon i'ch helpu i lunio eich llythyr eich hun. Bydd gofyn i chi roi eich manylion eich hun yn y manau priodol (mewn print tywyll). Cofiwch gadw copi o'ch llythyr. Anfonwch ef drwy gludiad cofnodedig. Cofiwch lofnodi'r llythyr.